Senedd Cymru

**Lleoliadau a Digwyddiadau'r Senedd**

# Adolygiad o'r Defnydd o'r Ystad: Cwestiynau Cyffredin

Gorffennaf 2025

## Pryd mae y Farchnad yn cael ei chynnal?

Cynhelir y Farchnad unwaith y mis, ar ddydd Mawrth neu ddydd Mercher.

Anogir sefydliadau i osod eu stondinau rhwng 11.00 a 11.30, ac mae'r digwyddiad ei hun yn cael ei gynnal rhwng 11.00 – 14.00. Mae rhagor o Aelodau yn tueddu i fod ar gael rhwng 12:00 a13:30, ac nid oes unrhyw reidrwydd ar sefydliadau i aros yn y Senedd am y cyfnod llawn.

## A fydd diwrnodau/wythnosau/misoedd ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o fframwaith Y Farchnad?

Bydd, i raddau. Mae yna nifer fawr o ddyddiadau ymwybyddiaeth penodol ac felly byddai'n anodd bodloni ceisiadau pawb. Fodd bynnag, bydd diwrnodau ymwybyddiaeth yn cael ei ystyried.

## Pa feini prawf fydd ar waith ar gyfer stondin Y Farchnad?

Fel canllaw, bydd pob stondin yn cael bwrdd (6 troedfedd/1.8 metr), gyda lle ar gyfer baneri codi. Gall pob sefydliad ddod â thaflenni/adroddiadau a'u dyfais eu hunain fel gliniadur neu lechen er mwyn arddangos gwybodaeth. Mae WiFi agored ar gael yn y Senedd i bob sefydliad ei ddefnyddio tra byddant yn bresennol.

## A fydd darpariaeth Clyweledol?

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod a darparu'r un cyfle i bob sefydliad, ni fydd darpariaeth clyweledol ar gael. Bydd Y Farchnad yn drefniant syml heb unrhyw areithiau. Ar gyfer digwyddiadau unigol a noddir gan Aelod o'r Senedd - fel lansio adroddiadau lle bydd angen areithiau a chynulleidfa, gellir trefnu mannau digwyddiadau cyhoeddus fel arfer.

## A all Aelodau noddi mwy nag un sefydliad/stondin yn Y Farchnad?

Gall, mae'n rhesymol tybio y gallai mwy nag un sefydliad gysylltu ag Aelod i noddi stondin lle mae thema gyffredin e.e. gofal iechyd.

## A all mwy nag un Aelod noddi sefydliad/stondin yn Y Farchnad?

Gall, byddai cyd-noddi stondin, neu nifer o stondinau, yn cael ei ganiatáu pe bai'r Aelod yn dewis hynny.

## Sut y bydd gwahoddiadau’n gweithio os yw Aelod yn noddi mwy nag un stondin yn Y Farchnad?

Bydd tîm y Lleoliadau yn cwblhau gwahoddiad digidol cyn y digwyddiad yn nodi pa sefydliadau fydd yn bresennol a phwy yw'r Aelodau sy’n noddi. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei harddangos ar sgriniau yn y Senedd ar y diwrnod.

## Sut bydd archebion ar gyfer Y Farchnad yn cael eu prosesu?

Bydd archebion yn cael eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin drwy'r ffurflen gais digwyddiad bresennol trwy ddewis yr opsiwn ‘Y Farchnad’ yn y gwymplen. Bydd archebion yn cau 2 wythnos cyn y digwyddiad.

## A fydd arlwyo ar gael?

Gall sefydliadau drefnu’n unigol i ddetholiad bach o frechdanau neu gacennau cri fod ar gael ar eu stondin, a bydd arlwywyr ar y safle yn y Senedd yn trefnu hyn ac yn codi tâl amdano.

Bydd lluniaeth ar gael yng nghaffi’r Senedd.

## A oes cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir dod ag ef i’r Senedd?

Gall sefydliadau ddod â baneri codi dros dro, taflenni/adroddiadau a gliniaduron. Os hoffai stondinwyr ddod ag eitemau ychwanegol, rhaid iddynt drafod gyda'r tîm Lleoliadau ymlaen llaw.

## A oes canllawiau cyffredinol ynglŷn ag ymweld â’r Senedd?

Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddiadau, gwybodaeth am drafnidiaeth ac am y broses ddiogelwch yma: Cynlluniwch eich ymweliad

## A oes unrhyw leoedd eraill ar gael i'w harchebu?

Mae'n bosibl y bydd Ystafell Briffio'r Cyfryngau yn cael ei harchebu ar gyfer digwyddiadau briffio, gyda busnes y Senedd yn cael blaenoriaeth ar gyfer archebion. Sylwch na ellir newid y cynllun 50 mewn arddull theatr yn y gofod hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â **Lleoliadau@senedd.cymru** neu 0300 200 6218.